

# Richard Pennant - Arloeswr

Roedd Richard Pennant yn arloeswr penigamp. Efe oedd yn gyfrifol am sefydlu Chwarel y Penrhyn, a thrawsffurfio ffortiwn Ystâd Penrhyn. Daeth y tir i'w feddiant pan briododd aeres Penrhyn yn 1765. Defnyddiodd Pennant y cyfoeth o blanhigfeydd siwgr y teulu yn India'r Gorllewin i newid nid yn unig ffortiwn ystâd y Penrhyn ond hefyd i newid economi'r wlad gyfan. Ceir disgrifiad o'r cyfnod o sut 'nad oedd modd teithio hyd y wlad, roedd y ffyrdd yn ddim gwell na llwybrau ceffyl gwael, y bythynnod yn druenus a'r ffermwyr yn dlawd'..



Chwarel Llechi y  
Penrhyn yn 1832  
gan Henry Hawkins

## Egin y diwydiant Llechi

Cyn i Richard Pennant gymryd yr awenau, nid oedd y gwaith cloddio ar diroedd Penrhyn wedi bod ond megis diwydiant bychan. Oherwydd bod cludo'r llechi'n peri problemau, nid oeddynt ond yn cael eu defnyddio'n agos i'r gwaith llechi, er roedd yna achosion ble y cafodd ei gludo cryn bellter. Yn 1713 er enghraifft, anfonwyd llond 14 o longau'n cario 415,000 o lechi i Ddulyn. Cymerodd Pennant y prydlesau bychan hyn ac aeth ati i greu

diwydiant. Cyflwynodd nifer o ddatblygiadau newydd a gafodd eu mabwysiadu a'u hymgorffori'n llawn yn niwydiant llechi Gogledd Cymru. Erbyn 1792, roedd y chwarel yn cyflogi 500 o ddynion ac yn cynhyrchu 15,000 tunnell o lechi y flwyddyn.



Golygfa o Chwarel  
Penrhyn o'r awyr

## TAITH Y LLECHEN

Dilynwch Daith y Llechen ar hyd llwybr Lôn Las Ogwen lle ceir amryw o baneli gwybodaeth sy'n adrodd stori unigryw llechi Ogwen, Chwarel y Penrhyn a'r bobl fu'n rhan o'r diwydiant llechi.